# CYNGOR TREF NEFYN

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 — Adran 6

## Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

**Rhagarweiniad**

Mae Cyngor Tref Nefyn yn darparu nifer o wasanaethau i'w gymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth:

- Cyfrifoldeb am dorri gwair mewn 5 Mynwent
- Torri gwair llwybrau cyhoeddus y gymuned sy'n cael eu defnyddio'n gyson
- Torri gwair o amgylch y meinciau sydd yn y gymuned
- Torri gwair cae chwarae Bryn Mynach a'r Ddôl
- Torri gwair y llecynnau gwyrdd o gwmpas y gymuned

Mae'r ardal a wasanaethir gan Cyngor Tref Nefyn yn cynnwys Nefyn, Morfa Nefyn ac Edern.

Y praesept ar gyfer 2023-2024 yw £87,000.00

Adroddiad Gweithredu

| **Camau gweithredu i:** | | **Wedi eu monitro gan:** |
|---|---|---|
| Cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | Wrth ymateb i geisiadau cynllunio | Cyngor Tref/Cyngor Gwynedd |
| Codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | Hysbysfwrdd o wahanol rywiogaethau sydd ar gael yn yr ardal | Cyngor Tref Nefyn |
| Diogelu y prif rywiogaethau a'r cynefinoedd, adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth. | Plannu coed a blodau gwyllt sydd yn gynefin yn ei hun i fwy o anifeiliaid gwyllt | Cyngor Tref Nefyn |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhandiroedd Tafarn yr Heliwr. | Tafarn yr Heliwr |
| Mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael a rhywogaeth goresgynnol | Canclwm Japan<br>Dail y dial<br>Coed Onnen<br>Himalayan Balsam<br>Rhododendron Ponticum | Prif Swyddog AHNE<br>Cyngor Gwynedd |
| Cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill | Rhoi rhodd ariannol i wirfoddolwr tuag at offer casglu sbwriel.<br><br>Mae Tafarn yr Heliwr wedi plannu blodau gwyllt yn y rhandiroedd.<br><br>Rhoddwyd hawl i'r AHNE blannu coed mewn llecynnau agored yn nhiriogaeth Cyngor Tref Nefyn | Cyngor Tref Nefyn<br><br>Tafarn yr Heliwr<br><br>Prif Swyddog AHNE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Tref Nefyn |

**Arolwg o ddyletswydd Adran 6**

Monitro parhaus gan y Cynghorwyr a'r Clerc ac adolygiad yn y Pwyllgor Blynyddol bob blwyddyn.

Mabwysiadwyd a chymeradwywyd gan y Cyngor Tref ar y 18$^{fed}$ Mehefin 2024

# CYNGOR TREF NEFYN